Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Mawrth 26ain, 2008 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace, Cyng Julia Jones, Cyng Charlotte Leadbeater,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Cyng Hugh Towns, Cyng Ros Bellamy, Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Materion yr Heddlu : Doedd yna ddim materion yr Heddlu

Cof 297 / Mawrth /08 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Anfonodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones adroddiad i mewn. Yn yr adroddiad dywedodd ei fod wedi cwrdd â Mr Gerwyn Thomas, CSC Swyddog Cynnal a Chadw Tiroedd i drafod gwella'r ardd gerrig ym Mharc Penlan. Hefyd adroddodd bod y Grŵp Morgan yn cyflwyno cynlluniau diwygiedig i'r Cyngor Sir mewn perthynas â phrosiect y Neuadd Farchnad.

Cof 298 / Mawrth / 08 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Chwefror 27ain, 2008 fel cofnod cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed, 2008 fel rhai cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Mawrth 12fed, 2008 fel cofnod cywir wedi cynnwys y newidiadau canlynol.
Cof 291/Mawrth/08 Anfonebau i'w talu
Ychwanegu Clerc (Costau postio) £ 46.76
Cof 294/ Mawrth/08 Materion Ariannol eraill (3)
Ychwanegu rhodd i Eglwys Sant Teilo er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r borfa £1000. Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Cynigiwyd hyn gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Cof 299/ Mawrth / 08 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parth Cof 273Chwefror/08 . Roedd y Cyng Charlotte Leadbeater wedi dosbarthu adroddiad o'r seminar Cynllunio a fynychwyd.
Parth. Cof 287 / Mawrth / 08. Roedd y Clerc wedi anfon ateb at Stephen Chandler, LlCC yn dweud bod y Cyngor yn parhau i wrthwynebu'r cyfyngiadau aros arfaethedig ar Stryd y Bont, gan nad yw diogelwch y trigolion wedi'i ddatrys.
Parth.Cof 294/Mawrth/08 (2) Dywedodd y Cyng Edward Thomas ei fod wedi casglu dau o'r ffioedd Hysbysebu yn y Rhaglen sydd ar ôl i'w talu. Mae yna dair hysbyseb ar ôl i'w talu.
Parth Cof 294/ Mawrth / 08 (3)Bydd y swyddog Cyllid yn ymgynghori â'r Cyng Hugh Towns fel Llywodraethwr mewn perthynas â'r weithdrefn o roi tocynnau llyfr i Ysgol Gynradd Llandeilo.

Cof 300 / Mawrth/ 08 I Ystyried Gohebiaeth sydd angen ei hateb

1. E.D.Jones parth. Pryderon ynghylch man i fysiau yn y maes parcio. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid anfon llythyr yn nodi y dylai unrhyw fan i fysiau gael ei roi yn ddigon pell i ffwrdd o eiddo'r awdur. Eiliwyd hyn gan y Cyng Charlotte Leadbeater.
2. Mr Canning CSC Gorfodaeth Cynllunio parth. Newidiadau sydd wedi'u gwneud yn y Salutation Inn.
   Y Clerc i anfon copi i'r ddau Bwyllgor Cynllunio i'w drafod yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio.
3. Trevor Sage parth: cau Heol Rhosmaen dros dro. Y Clerc i ddarparu copi o'r manylion i bob Cynghorydd.
4. Trevor Sage parth: cau Teras yr Abaty dros dro. Y Clerc i ddarparu copi i'r ddau Gynghorydd.
5. B.A.Jukes - sylwadau parth. cau Heol Rhosmaen dros dro. Nodwyd
6. Un Llais Cymru – gwahoddiad i barti yng ngardd Palas Buckingham. Maer i'w enwebu.
7. Un Llais Cymru – esboniad o ddyddiadau yn dilyn yr etholiadau lleol. Nodwyd.
8. Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo a'r Cylch – copi o lythyr i'w anfon at ddatblygwyr Pencrug. Nodwyd.
9. D.A.Jones parth. Hen garreg filltir. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater bod y Clerc yn anfon y llythyr ymlaen at Asiantaeth Cefnffyrdd Cymru yn gofyn iddynt adfer y garreg i'w safle amlwg gwreiddiol.
10. Clwb Garddio Llandeilo yn holi a oes yna unrhyw gymorth ariannol fyddai ar gael gan y Cyngor mewn perthynas â phrosiect Llandeilo yn ei Blodau.
    Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid rhoi £500 iddynt. Eiliwyd hyn gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 301 / Mawrth /08 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Un Llais Cymru – cyfarfod Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin 27.3.08. Nodwyd
2. Arglwydd Dinefwr – ateb yn derbyn y gwahoddiad i fynychu'r dathliadau ym Mharc Penlan ar Fehefin 14eg, 2008. Nodwyd.
3. LlCC – Ymgynghoriad Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins i'w ddarllen ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.
4. LlCC – Gweledigaeth Leol – Canllawiau Statudol ar ddatblygu a chyflwyno Strategaethau Cymunedol. Cynigiodd y Cyng Roy Davies ei ddarllen ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Cof 302/ Mawrth / 08 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

Prospect Construction (Llandeilo) Ltd	£ 761.99
Dewis (cyfieithu)	£ 277.25
WCVA (Gweinyddiaeth Mawrth 08)	£ 35.54
WCVA (Cyflogau Mawrth 08)	£ 178.71
Llandeilo yn ei Blodau	£ 500.00
Fattorini (bathodynnau ar gyfer gwobrau Tre-gib)	£ 42.48

Argymhellwyd talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill
   i) Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ddogfen gyllideb arfaethedig ar gyfer 2008-9. Bydd yn dangos diffyg balans o £27,000 yn seiliedig ar ragolygon a wneir.
3. Dathliadau Canmlwyddiant Parc Penlan
   Mae'r Cyngor wedi derbyn rhodd o £400 gan y Cynghorydd Sir Ieuan Jones' o'r gronfa prosiect lleol tuag at y digwyddiad. Llythyr o ddiolch i'w anfon at y CS Jones.
4. Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris gan 'Lewis Printers' ar gyfer argraffu taflenni Llwybr Treftadaeth y Dref. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid argraffu 10,000 o daflenni ar gost o £801. Mae 'Caron Promotions' yn fodlon dosbarthu ar gost o £320. Eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 303 / Mawrth /08 Trefniadau ar gyfer y Dathliadau Canmlwyddiant ym Mharc Penlan.

Trafododd y Cyngor yr e bost a anfonwyd gan y Cyng Ros Bellamy a chofnodion cyfarfod o'r is grŵp sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiad. Roedd y Swyddog Technegol wedi derbyn dyfynbrisau am yr amrywiol eitemau sydd eu hangen ar gyfer digwyddiadau a gynhelir ar Fehefin 14eg.
Maent fel a ganlyn :-
1.Cost generadur, 2 fachyn a thrydanwr yn bresennol o 1-6pm oedd £606 + taw. Roedd bachau ychwanegol yn £40 yr un.
2.Cost y PA oedd £60 am y prynhawn.
3.Roedd yna gostau ychwanegol am y noson Jas yn y parc h.y. £230 yn ychwanegol am y generadur a £100 arall am y PA
4.Y gost am logi'r Parc gan CSC oedd £43.75
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid derbyn y costau hyn a bod y Cyngor yn cyflwyno rhodd o £330 i Tenovus i dalu am y costau ychwanegol ar y noson. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Cafwyd pleidlais gydag wyth pleidlais o blaid y cynnig a dwy yn erbyn. Derbyniwyd y cynnig.
Bydd yn rhaid i Tenovus drafod gyda CSC ar gyfer yr elfen o godi tâl am y digwyddiad gyda'r nos.
Y Clerc i ysgrifennu at Tenovus ar unwaith i egluro'r sefyllfa yn arbennig oherwydd yr angen i'r mudiad gyflawni asesiad risg eu hunain. Dylid gofyn iddynt a yw eu yswirwyr yn cymeradwyo eu hasesiad risg.
Mae 'Prospect Construction' wedi cyflwyno dyfynbris o £1,050 am waith atgyweirio sydd angen ei wneud i'r 'Bandstand'. Anfoner y dyfynbris hwn ymlaen at Mr Gerwyn Thomas, Rheolwr Cynorthwyol Cynnal a Chadw Tiroedd CSC fydd yn trefnu'r gwaith ac yn talu amdano.

Cof 304 / Mawrth/ 08 Cludiant a Phriffyrdd.

Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Asiantaeth Cefnffyrdd i ofyn iddynt archwilio'r arwydd concrit sydd ar gornel Heol Rhosmaen a Heol Cilgant sy'n amharu faint mae gyrwyr sy'n troi o Heol Cilgant i Heol Rhosmaen yn ei weld. Eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 305 / Mawrth / 08 Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd Mr Davies fod y byrddau a seddi wedi'u rhoi yn ôl yn eu lle wedi iddynt eu hatgyweirio. Soniwyd fod yna nam ar y gwresogydd dŵr yn Neuadd y Sir. Cost un newydd fyddai £160. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins bod un newydd yn cael ei roi yno. Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Agorwyd y dyfynbrisau am y rhaglen cynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer 2008-9 yn y cyfarfod. Roeddynt fel a ganlyn :-

Hugh Gwynne	£ 1080.00
Jonathon Field	£ 1080.00

Penderfynwyd y dylid rhoi'r cytundeb i Mr Hugh Gwynne a llythyr o ddiolch i Mr Jonathon Field.

Cof 306 / Mawrth / 08. Ystyried yr Ardd Gymunedol.

Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid rhoi hysbysebion yn y papurau newydd lleol am werthu'r tir y cyfeirir ato fel yr Ardd Gymunedol am bris o £ 4,300. Bydd yr hysbyseb yn nodi fod yna gyfamod sy'n rhwystro unrhyw adeiladu ar y safle. Eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 307 / Mawrth/ 08 Adroddiad ar y Seminar Cynllunio

Dosbarthodd y Cyng Charlotte Leadbeater adroddiad am y seminar a fynychwyd gan dynnu sylw at sawl gweithdrefn newydd fyddai'n golygu y bydd yn rhaid ymgynghori â'r Cyngor Tref ar wahanol adegau yn y dyfodol.

Cof 308 / Mawrth / 08 Diweddaraf ar y Wefan.

Gofynnodd y Cyng Fran Murphy am gymeradwyaeth y Cyngor i ailwampio'r wefan gyda'r dylunydd gwefan, Orchardweb am gost o £475. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid derbyn hyn, eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 309 / Mawrth / 08 Yr Is-grŵp Gweithdrefnau

Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid derbyn y Polisi Amgylcheddol diweddaraf fel dogfen y Cyngor. Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 310 / Mawrth/ 08 Adroddiad y Maer.

Cyflwynodd y Maer Cyng Richard Wallace adroddiad o'r digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyng yn ystod y mis.

Cof 311 / Mawrth /08 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Argymhellwyd gan y Cyng Colin Jenkins bod y Cyngor yn adolygu ei weithdrefnau tendro ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu oherwydd yr amser y mae'n cymryd ar hyn o bryd i gyfieithu cofnodion y Cyngor. Cytunwyd y dylid delio â hyn yn y CBC.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm